# Tîm Cymorth Ymchwil Llyfrgell Prifysgol Abertawe

Rydym yn cefnogi cenhadaeth y brifysgol o ragoriaeth ymchwil trwy ddarparu arbenigedd ansawdd uchel ar
y dulliau newidiol o gyhoeddi a chyfathrebu ysgolheigaidd a'r defnydd o bibliometreg, er mwyn helpu i sicrhau bod gwaith ymchwil Prifysgol Abertawe yn cael ei weld ac yn cael effaith yn ehangach. Rydym hefyd yn cefnogi cyflwyniad y brifysgol i'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) a storfa'r sefydliad.

Rydym wedi ein lleoli yn y Llyfrgell (LIC) ar Gampws Parc Singleton, ond rydym yn gweithio ar draws y ddau gampws.

## Meysydd rydym yn weithgar ynddynt

Rydym yn cefnogi ymrwymiad y brifysgol i gael mynediad agored yn y meysydd canlynol:

### Y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil a mynediad Agored

★ Cefnogi polisi mynediad agored Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr ac adrodd ar gydymffurfiaeth
★ Cefnogi ymchwilwyr i gydymffurfio â pholisïau cyllidwyr a gofynion cyhoeddi dogfennau mynediad agored
★ Cefnogi ymchwilwyr gyda threfniadau trwyddedu ar gyfer cyhoeddi dogfennau mynediad agored
★ Hyrwyddo polisi mynediad agored gwyrdd y brifysgol
★ Cefnogi gwaith Swyddfa Strategol y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil o ran cyflwyniad y brifysgol o allbynnau'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil

### Cyllid a mynediad agored

★ Rheoli gwaith gweinyddol cronfa mynediad agored Cynghorau Ymchwil y DU
★ Gweinyddu cytundebau cyhoeddwyr sefydliadol a threfniadau ar gyfer cyhoeddi dogfennau mynediad agored, megis cytundeb Springer Compact
★ Monitro data ac adrodd ar ofynion cydymffurfio mynediad agored i gyrff ariannu ymchwil yn ôl yr angen
★ Cael y wybodaeth ddiweddaraf am fentrau cenedlaethol a rhyngwladol, megis gwaith y Cydbwyllgor Systemau Gwybodaeth a Fforwm Llyfrgelloedd Addysg Uwch Cymru, a phrosiectau perthnasol eraill ynghylch mynediad agored

### E-theses a Hawlfraint

★ Darparu adneuon cyfryngol ar gyfer e-theses mynediad agored, gan gynnwys cymorth o ran hawlfraint a hyfforddiant

### Ystorfa'r sefydliad

★ Cefnogi ac arwain y gwaith o ddatblygu'r System Gwybodaeth Ymchwil trwy Grŵp Strategaeth Datblygu'r System Gwybodaeth Ymchwil

★ Darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant rheng-flaen ar gyfer y System Gwybodaeth Ymchwil a Chronfa

## Cyfathrebiadau ysgolheigaidd

★ Hyrwyddo ymgysylltiad ymchwilwyr â mynediad agored a chyfathrebiadau ysgolheigaidd,
gan gynnwys datblygu polisïau a strategaethau sefydliadol yn y meysydd hyn
★ Rydym yn rhoi cymorth ac arweiniad i staff a myfyrwyr ynghylch hawlfraint
★ Ymateb i ymholiadau clirio hawlfraint, gan gynnwys materion clirio hawliau a meysydd cysylltiedig
★ Rhoi cyngor ar strategaethau cyhoeddi, megis penderfynu ble i gyhoeddi a ffactorau effaith
★ Rhoi ISBNau

## Bibliometreg ac effaith ymchwil

★ Rheoli aelodaeth y sefydliad ag ORCID, gan ei hyrwyddo ac adrodd ar y defnydd ohono
★ Datblygu a chynnal hyfforddiant cymorth ymchwil sy'n ymdrin â meysydd megis hyrwyddo ymchwil, y cyfryngau cymdeithasol, altmetrigau, bibliometreg, cyfeiriadau, SCOPUS a chronfeydd data eraill, a meysydd datblygu a pherthnasol eraill
★ Rydym yn gweithio gydag eraill ar draws y brifysgol i ddefnyddio SciVal ar gyfer dadansoddi cyfeiriadau er mwyn cefnogi
agenda effaith a strategaethau cyhoeddi'r brifysgol, gan gynnwys creu endidau

## Cymorth ymchwil ôl-raddedig

Rydym yn gweithio gyda'r timau pwnc yn y llyfrgell a'r swyddogion ôl-raddedig i wneud y canlynol:
★ Cydlynu cyfraniadau'r llyfrgell i'r rhaglen datblygu sgiliau
★ Darparu hyfforddiant ac arweiniad ar bob maes o weithgarwch ein tîm, yn enwedig e-theses
★ Darparu eiriolaeth ar gymorth y llyfrgell ar gyfer myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig

## Manylion cyswllt

★ E-bost: iss-research@swansea.ac.uk / openaccess@swansea.ac.uk
★Gwefan: http://www.swansea.ac.uk/cy/llyfrgelloedd/cymorth%20ymchwil/
★Blog: http://researchnews.wordpress.com
★ Twitter: @sulibressupport
★ Ffôn: 01792 604567